

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Canllaw i reoli perfformiad

Bwriad y llyfryn hwn yw eich helpu i ddeall sut mae'r cyngor yn trefnu ei waith. Mae'n offeryn i unrhyw un sy'n gweithio yn y cyngor, yn ogystal â chanllaw i'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw beth yn y llyfryn hwn

Cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Byddwn yn hapus i roi unrhyw ganllawiau a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu.

e-bost: strategicplanningteam@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 706291 (dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30am a 5pm). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Ysgrifennwch atom: Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio'r hyn gaiff ei adnabod fel ein Fframwaith Rheoli Perfformiad, yn ei hanfod dyma'r strwythur sy'n cynnal cynllunio ein gwaith.

Mae pennod ar gyfer pob rôl. Gobeithir y bydd rhannu'r canllaw fel hyn yn eich helpu i ddeall yr hyn sy'n rhaid i chi ei wybod er mwyn gwneud yn fawr o'ch rôl. Ond peidiwch â chael eich cyfyngu gan hynny – weithiau mae'n ddiddorol gwybod beth mae pobl eraill yn ei wneud hefyd, prun ai ydych chi:

- **Aelod o'r cyhoedd**
- **Yn aelod etholedig**
 - Aelod o'r Cabinet
 - Aelod Craffu
 - Aelod Rheolaeth Gorfforaethol
- **Aelod o staff**
 - Y Prif Weithredwr / a Chyfarwyddwr Corfforaethol
 - Pennaeth Gwasanaeth
 - Rheolwr Canol
 - Swyddog Perfformiad o fewn gwasanaeth
 - Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Ar draws y rolau hyn i gyd mae rhai pethau cyffredin y mae'n ddefnyddiol eu gwybod:

- [Why is performance important?](#)
- [Where does the data go, and how do we report it?](#)
- [What does red, orange, yellow and green mean?](#)
- [What does the Well-being of Future Generations Act mean for how we plan our work?](#)

Argymhellir hefyd eich bod yn edrych ar yr adran sy'n dwyn y teitl [Something for everyone](#)

Mae'r [Glossary](#) hefyd yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol!

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Pam mae perfformiad yn bwysig?

Mae sôn o hyd am bwysigrwydd rheoli perfformiad. Ond mae'r pwyslais wedi tueddu i fod ar gael systemau monitro cadarn, sydd wedi arwain yn aml at brosesau cymhleth ac adroddiadau mawr. Mae hyn yn dychryn pobl, ac er fod systemau rheoli perfformiad da yn bwysig, does dim rhaid iddyn nhw fod yn faich.

Yr hyn sy'n bwysicach na'r systemau sydd mewn lle yw'r egni a ddefnyddir wrth eu gweithredu. Mae cyswllt cryf drwy'r broses – cyfranogiad a chyfranogiad gweithredol a pharhaus gan ddefnyddwyr wrth ei ddatblygu a'i gynhyrchu – yn allweddol ar gyfer rheoli perfformiad da. Os caiff hyn ei wneud yn dda, yna gellir cadw'r monitro a'r adrodd yn syml, a chaniatáu mwy o sylw ar wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Mae'r penodau yn y canllaw hwn yn dangos yr amrywiaeth o rolau sydd ynghlwm a rheoli perfformiad. Gyda chynifer â hyn o bobl, mae angen gonestrwydd, ymddiriedaeth a dealltwriaeth. Mae hyn yn gosod ffocws ar y cyngor fel sefydliad addysgol, lle rydym yn annog herio parhaus er mwyn hwyluso a chynnal datblygiad staff fel bod y sefydliad ei hun hefyd yn dysgu.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Ble mae'r data'n mynd, a ble rydym yn ei gofnodi?

Mae sawl dogfen allweddol sy'n rhoi canllawiau r gyflwyno ein gwasanaethau yn Sir Ddinbych. Mae pob un yn perthyn i'w gilydd.

Rhoddir cyfeiriad i'n gwaith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, am ddod â Chynllun Llesiant y rhanbarth at ei gilydd (gan ymateb i Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru). Mae pob partner ar y bwrdd yn cytuno ar hyn, ac mae'n deillio o ddadansoddiad helaeth o anghenion ac ymgysylltu â'r cyhoedd / rhanddeiliaid.

Wedyn, mae angen i gyrrff cyhoeddus ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, ystyried sut fyddant yn gweithio tuag at y Cynllun Llesiant. Gelwir hwn yn Gynllun Corfforaethol. Yn ogystal â chynnwys ein cyfraniad at y Cynllun Llesiant, bydd hefyd yn cynnwys meysydd pwysig eraill o waith y cyngor. Unwaith eto, datblygir hwn ar ôl dadansoddiad helaeth o anghenion ac ymgysylltu â'r cyhoedd / rhanddeiliaid. Cytunir ar y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor llawn a chaiff ei fonitro bob chwarter gan y Cabinet, Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Uwch Dîm Arwain.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer pob gwasanaeth yn y cyngor yn dod o dan y Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhain yn sicrhau fod Gwasanaethau'n gweithio tuag at nodau llesiant a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylid cynnwys staff ac aelodau etholedig yn natblygiad cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth. Cânt eu cymeradwyo gan yr aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb a chânt eu monitro bob chwarter gan reolwyr gwasanaeth a'r tîm perfformiad corfforaethol.

Efallai y bydd gan wasanaethau mwy lefel o gynlluniau gweithredol hefyd ar gyfer timau unigol, ond dylai fod cyswllt bob amser rhwng gwerthusiadau staff a'r Cynllun Gwasanaeth er mwyn galluogi timau ac unigolion sy'n gweithio i'r cyngor i ddeall yn glir beth maent yn wneud i gyfrannu at y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Llesiant.

Yn Sir Ddinbych rydym yn defnyddio system storio o'r enw [Verto](#) i'n helpu i reoli ein gwybodaeth perfformiad a phrosiectau.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mae swyddogion mewn gwasanaeth yn helpu i gasglu a mewnbynnu data, gwybodaeth risg a phrosiect i mewn i Verto ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth. Dim ond unwaith y mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon ac mae'n bwydo'n awtomatig i'r Cynllun Corfforaethol / Cynllun Llesiant, Cofrestr Risgiau Gorfforaethol, a'r Cofrestr Prosiect Corfforaethol. Mae hyn yn cadw'r gwaith adrodd yn syml, ac yn osgoi dyblygu. Mae gan wasanaethau fis ar ôl diwedd y chwarter i gyflwyno hyn.

Mae Sir Ddinbych hefyd yn gweithredu rhaglen Heriau Perfformiad Gwasanaeth, ac fe'i mynychir gan uwch reolwyr, cynrychiolwyr Archwilio a Chabinet, yn ogystal â'n rheoleiddwyr. Edrychir ar bob Gwasanaeth yn y cyngor unwaith y flwyddyn, gan gyflwyno adroddiad perfformiad ar y Cynllun Gwasanaeth a'r Cofrestr Risg Gwasanaeth fel rhan o'r ddogfennaeth.

Gweler isod amlinelliad o'r amserlen adrodd. Gall hyn newid yn dibynnu ar amserlen y pwyllgor.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mis	Cynllunio Ariannol	Cynllunio Gwasanaeth	Gwleidyddol
Ebrill	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Cynlluniau Gwasanaeth yn dod yn weithredol. Diweddariadau Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg Chwarter 4 i'w cyflwyno.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Mai	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Mehefin	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol (eitem agenda i'w drafod), sy'n cynnwys chwarter 4 a'r Ddogfen Ddarparu Flynyddol.
Gorffennaf	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Diweddariadau Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg Chwarter 1 i'w cyflwyno.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Awst	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Diweddarau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol	Dim adroddiad wedi ei drefnu.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mis	Cynllunio Ariannol	Cynllunio Gwasanaeth	Gwleidyddol
Medi	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 (i'w rannu er gwybodaeth) i'r Cabinet, Craffu Perfformiad a'r Uwch Dîm Arwain. Cofrestr Risg Corfforaethol (eitem agenda i'w drafod) to Cabinet, Craffu a'r Uwch Dîm Arwain.
Hydref	Setliad Ariannol Dros Dro gan Lywodraeth Cymru.	Diweddariadau Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg Chwarter 2 i'w cyflwyno.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Tachwedd	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Rhagfyr	Setliad Ariannol terfynol gan Lywodraeth Cymru.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (eitem agenda i'w drafod) i'r Cabinet, Craffu Perfformiad a'r Uwch Dîm Arwain.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mis	Cynllunio Ariannol	Cynllunio Gwasanaeth	Gwleidyddol
Ionawr	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Cychwyn drafftio'r Cynllun Gwasanaeth. Diweddariadau Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg Chwarter 3 i'w cyflwyno. Diweddarau'r Gofrestr Risg Corfforaethol.	Dim adroddiad wedi ei drefnu.
Chwefror	Cytuno ar Gyllideb a chynllun Ariannol Tymor Canol.	Gorffen y gyllideb.	Cyngor yn cytuno ar gyllideb. Cofrestr Risg Corfforaethol (eitem agenda i'w drafod) i'r Cabinet, Craffu a'r Uwch Dîm Arwain.
Mawrth	Dim adroddiad wedi ei drefnu.	Gorffen Cynlluniau Gwasanaeth.	Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 (eitem agenda i'w drafod) i'r Cabinet, Craffu Perfformiad a'r Uwch Dîm Arwain.

Sylwch: Mae casglu, cyflwyno a dilysu Ffurflenni Statudol yn digwydd yn barhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r amseroedd yn dibynnu ar y maes Gwasanaeth. Mae'r Rhaglen Herio Perfformiad gwasanaeth hefyd yn rhedeg ar hyd y flwyddyn. Mae amserlen ar wahân ar gael gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Nod yr holl broses hon yw sicrhau ein bod yn cyflwyno'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud a'n bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnig gwasanaethau gwerth gwell i'n cwsmeriaid.

Oherwydd hyn, rydym ni'n agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn. Gellir gweld ein cynlluniau a'n hadroddiadau ar-lein drwy [wefan y cyngor](#). Er mwyn rhyddid gwybodaeth rydym hefyd yn ceisio sicrhau fod copïau caled o'n dogfennau allweddol – y Cynllun Llesiant a'r Cynllun Corfforaethol – ar gael yn ein llyfrgelloedd a'n derbynfeydd.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Beth yw ystyr coch, oren, melyn a gwyrdd?

Nid ydym yn defnyddio 'targedau' er mwyn barnu llwyddiant perfformiad. Yn hytrach rydym yn mynegi ein dyhead gan ddefnyddio dull pedwar cam i asesu statws y perfformiad.

Ein dull diodyn er mwyn gosod ein statws perfformiad yw cymryd y chwarter uchaf (y perfformiad gorau) fel y pwynt ble mae'r perfformiad yn Ardderchog, a'r canolrif fel y pwynt lle dylid ystyried fod angen i'r perfformiad fod yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwelliant. Mae ein hystod canol (perfformiad Da neu Dderbyniol) yn disgyn o bopty i'r gwerth canol rhwng y ddau bwynt yma (y gwerth chwarter uchaf a'r gwerth canolrif). Er enghraifft

- 0 i 49 = Blaenoriaeth ar gyfer trothwy Gwelliant.
- 50 i 62.4 = Trothwy derbyniol.
- 62.5 i 74 = Trothwy da.
- 75 i 100 = Trothwy ardderchog.

Gan ddefnyddio'r dull hwn, mewn enghraifft ble mae 76% o ffyrdd yn bodloni safon dderbyniol o lanweithdra, byddem yn barnu bod ein perfformiad yn Ardderchog. Yn groes i hynny, pe bai safon ein glanweithdra yn 24% byddem yn barnu bod hyn yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwelliant.

Noder, mae'r dull hwn ychydig yn wahanol i Lywodraeth Cymru, sy'n ystyried y chwarter isaf (perfformiad gwaethaf) fel y pwynt sy'n penderfynu statws Blaenoriaeth ar gyfer Gwelliant. Yn Sir Ddinbych rydym wedi penderfynu bod yn fwy uchelgeisiol.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag ef (naill ai'n genedlaethol neu drwy grwpio cymharol, er enghraifft, grŵp teuluol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n Ardderchog, ac yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwelliant. Bydd hyn yn cynrychioli ein huchelgais i fod yn gyngor o berfformiad uchel, statws Ardderchog a gyflawnir drwy fodloni'n huchelgais yn unig.

Wrth osod trothwyon lleol, mae hyn yn gofyn am werthuso gonest o'r ffordd yr ydym yn gweld ein perfformiad presennol a beth yw ein huchelgais. Felly, mae angen dealltwriaeth dda o angen y cwsmer. Gallwch weld ein hasesiad ar-lein o anghenion yn [Conwy and Denbighshire PSB website](#).

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Beth mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu i'r ffordd y cynlluniwn ein gwaith?

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydlynol.

Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; h.y. ydy anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain?

Mae pum peth i ni eu hystyried er mwyn gallu dangos ein bod wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy:

1. Tymor hir

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hir hefyd.

2. Atal

Sut y gall gweithredu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion.

3. Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4. Cydweithio

Gweithredu mewn cydweithrediad gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

5. Ymgysylltu

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau fod y bobl rheiny yn myfyrto ar amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar <https://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/> ar-lein yn <https://futuregenerations.wales/cy/>

Beth am ddeddfwriaeth arall?

Mae sawl darn arall pwysig o ddeddfwriaeth y dylem sicrhau ein bod yn cydymffurfio â nhw fel cyngor, h.y. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Cydraddoldeb (gan gynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Tai, Deddf Gynllunio a Mesurau Llywodraeth Leol. Mae'r rhain hefyd yn cefnogi egwyddorion arweiniol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi llesiant unigolion a chymunedau a chyfranogi yn greiddiol i bopeth a wneir.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mae yna rywbeth i bawb

Rydym ni gyd yn disgwyl:

- Fod gwasanaethau'r cyngor yn cael eu cyflwyno i safon uchel, gan fodloni angen y cwsmer.
- Dyletswyddau deddfwriaethol i'w bodloni.
- Mynediad at wybodaeth a data cyfredol sy'n dweud wrthym sut mae'r cyngor yn perfformio.
- Bod rhywun yn gwrandao arnom ac yn gweithredu ynglŷn â'n pryderon.

Mae gan bawb gyfrifoldeb i hyrwyddo:

- Ymgynghori ac ymgysylltu.
- Y Gymraeg.
- Mynediad at wasanaethau a pharchu eraill, cadw mewn cof beth yw'r naw nodwedd a ddiogelir a'r rhai sydd mewn tlodi.
- Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o lywodraethu.

Sut ydym ni'n gwneud hyn?

Gyda'n gilydd, mae gennym ni gyd ran i'w chwarae i sicrhau fod y disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni. Rydym yn gwneud hyn yn naturiol drwy ein rhyngweithio â'n gilydd ac â'r cyngor. Er mwyn deall y cyfraniad y gallwch chi ei wneud fel unigolyn, darllenwch drwy'r rolau isod.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Aelod o'r Cyhoedd

Fel aelod o'r cyhoedd rwy'n disgwyl:

- Gwasanaethau ansawdd uchel sydd wedi eu cynllunio'n dda ac yn bodloni fy anghenion.
- Mynediad at wybodaeth a data cyfredol sy'n hawdd ei deall.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Roi gwybodaeth yn sail i gynllunio gwasanaethau'r cyngor, a dweud wrthynt beth sy'n bwysig i mi.
- Herio perfformiad y cyngor a rhoi gwybod iddynt ble gellir gwneud pethau'n well. Gweler [Your Voice](#) ar ein gwefan.

Sut ydyw i'n gwneud hyn?

- Cyhoeddir ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar-lein yn <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynghlyn-ar-cyngor/perfformiad.aspx>
- Er mwyn cael darlun mwy cyfredol o'n perfformiad, gallwch edrych ar ein hadroddiadau perfformiad chwarterol drwy agenda'r pwyllgorau ar gyfer <https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListMeetings.aspx?Committeed=281&LLL=1> neu <https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListMeetings.aspx?Committeed=269&LLL=1>. Fel arall, gallwch chwilio am [Corporate Plan Performance Report](#) ar ein gwefan.
- Fel cyfarfodydd y Cyngor, mae'r Cabinet ac Archwilio yn gyhoeddus ac mae croeso i chi fynychu. Gallwch hefyd weld rhai cyfarfodydd ar-lein drwy [Denbighshire County Council Webcasts](#).
- Gallwch roi gwybod i'r cyngor beth rydych chi'n feddwl unrhyw bryd mewn sawl ffordd:

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Ymweld â ni [Find a council office or One-Stop-Shop on our website.](#)
- **Ar-lein:** [General Enquiries Form on our website.](#)
- [Complaints, compliments and feedback](#)
- Rydym hefyd ar [Facebook](#) a [Twitter](#)!
- **Rhif ffôn:** 01824 706101 (dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30am a 5pm).
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.
- **Ysgrifennwch atom:** Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.
- **Siaradwch gyda'ch cynghorydd:** [Find your councillor](#) - www.[denbighshire](#).gov.uk
-

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Aelod Etholedig

Fel Aelod Etholedig rwy'n disgwyl:

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth dibynadwy gan swyddogion y cyngor i'm helpu i wneud penderfyniadau a chyflawni fy rôl.
- Cael gwybod am faterion sy'n effeithio ar fy ward.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Benderfynu ar weledigaeth strategol y cyngor a rhoi gwybodaeth yn sail i gynllunio gwasanaeth y cyngor, cynrychioli'r gymuned a rhoi llais i'r hyn sy'n bwysig i breswylwyr.
- Herio perfformiad y cyngor a rheoli risg, gan geisio gwelliant lle bo modd.

Sut ydyw i'n gwneud hyn?

- Cyfranogi mewn cyfarfodydd, cynrychioli llais y dinesydd.
- Codi materion / pryderon gyda rheolwyr perthnasol.
- Ymgysylltu ac archwilio'r wybodaeth sydd ar gael yn Verto ac yn yr Adroddiadau Perfformiad er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi ffyrdd o wneud gwelliannau.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rwy'n Aelod o'r Cabinet

Fel aelod o'r cabinet rwy'n disgwyl:

Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Roi gwybodaeth i gynlluniau gwasanaeth yn fy mhortffolio, a chytuno arnynt (erbyn 31 Mawrth).
- Monitro cyflwyno cynlluniau gwasanaeth a rheoli Cofrestrau Risg Gwasanaeth gyda Phenaethiaid y Gwasanaeth bob chwarter.
- Monitro a bwrw ymlaen gyda chyflwyno ein blaenoriaethau corfforaethol.
- Monitro a rheoli risgiau ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Ydw i wedi:

- Cyfarfod â'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn fy mhortffolio i roi mewnbwn a chytuno ar gynnwys y Cynllun Gwasanaeth?
- Rhoi mewnbwn i'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y cyngor a'r gwasanaethau rydw i'n eu cynrychioli bob chwarter?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Aelod Craffu

Fel aelod o'r cabinet rwy'n disgwyl:

Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Craffu ar gyflwyno cynlluniau gwasanaeth a rheoli Cofrestrau Risgiau Gwasanaeth.
- Craffu ar gyflwyno blaenoriaethau'r cyngor.
- Craffu ar reoli ein Cofrestr Risg Corfforaethol.

Ydw i wedi:

- Rhoi mewnbwn i'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y cyngor bob chwarter?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n aelod Rheolaeth Gorfforaethol

Fel aelod o Reolaeth Gorfforaethol rydw i'n disgwyl:

Sicrwydd fod ein prosesau perfformiad a risg yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y cyngor.

Rydw i'n gyfrifol am:

Fonitro gweithredu ein prosesau perfformiad a rheoli risg.

Ydw i wedi:

- Adolygu gwybodaeth am berfformiad a risg yn Verto ac adroddiadau a roddwyd i'r Cabinet a Chraffu?
- Darllen papurau Herio Perfformiad Gwasanaeth?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n aelod o staff.

Fel aelod o staff rwy'n disgwyl:

- Deall blaenoriaethau'r cyhoedd a'r cyfraniad mae fy ngwaith yn ei wneud iddynt.
- Offerynnau a systemau mewn lle sy'n cefnogi datblygu, cyfathrebu a monitro ein gwybodaeth perfformiad a risg, gan fy helpu fi i ddeall sut mae'r cyngor a'i wasanaethau'n perfformio.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Gefnogi cyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth.
- Gwella gwasanaethau.

Sut ydyw i'n gwneud hyn?

- Gofyn cwestiynau, cyfrannu syniadau a herio'r ffordd rydym ni'n gwneud pethau.
- Codi unrhyw risgiau neu bryderon gyda rheolwyr.
- Bod yn rhan o'r broses Cynllunio Gwasanaeth a rhoi eich mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth.
- Ymgysylltu â phroses Hunanasesu'r Gwasanaeth a darllen y papurau Herio Gwasanaeth.
- Gwybod am berfformiad cyfredol y cyngor drwy edrych ar ein papurau herio gwasanaeth, ein hadroddiadau perfformiad chwarterol drwy agenda'r pwyllgorau ar gyfer [Cabinet](#) neu <https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=269&LLL=1> Fel arall, gallwch chwilio am [Corporate Plan Performance Report](#) ar ein gwefan.
- Rhoi diweddariadau gonest a hawdd eu deall ar gynnydd y gwaith.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol

Yn Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol rwy'n disgwyl:

I staff fod yn rhan o'n Cynllun Corfforaethol a deall eu cyfraniad.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Gyfathrebu gweledigaeth strategol y cyngor.
- Monitro'r Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Herio perfformiad gwael a chefnogi gwelliannau i wasanaethau.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Gweithredu cynlluniau tymor hir ac asesiadau risg wrth gyflwyno gwasanaethau.

Ydw i wedi:

- Darparu mewnbwn i Gynlluniau Gwasanaethau?
- Adolygu data perfformiad gwasanaeth a risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth bob chwarter o leiaf?
- Rhoi mewnbwn i'r rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau?
- Rhoi mewnbwn parhaus i Aseiad Anghenion y cyngor a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynllunio a chyflwyno gwasanaethau?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Bennaeth Gwasanaeth

Fel Pennaeth Gwasanaeth rwy'n disgwyl:

- Arweiniad gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau'r Cabinet, a'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ynglŷn â Chynllunio Gwasanaethau.
- Dylai aelodau Craffu a Staff hefyd fod yn rhan o ddatblygu a chyflwyno'r Gwasanaeth.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Ddatblygu, cyfathrebu a chyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, sy'n cynnwys rhoi gwybod i aelodau etholedig am faterion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Rheoli risg gwasanaeth, gyda mewnbwn gan staff.
- Cynnwys staff wrth ddatblygu'r Gwasanaeth Hunanasesu a'i rannu gyda nhw.
- Deall perfformiad y gwasanaeth a sicrhau fod disgwyliadau perfformiad yn cael eu bodloni.

Ydw i wedi:

- Ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys rheolwyr, staff ac aelodau arweiniol y Cabinet.
- Ystyried anghenion y cwsmer a chynnwys unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol allai fod yn gymwys?
- Ystyried goblygiadau'r cynllun a darparu asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth a'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau cychwyn a gorffen realistig ar gyfer prosiectau / gweithgareddau?
- Rhoi mewnbwn i waith papur Herio Perfformiad Gwasanaeth, gyda staff yn rhoi mewnbwn i hunanasesu'r gwasanaeth?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Adolygu data perfformiad a risg bob chwarter gydag aelodau fy Nghabinet a'r tîm rheoli a nodi cyfleoedd i wella?
- Cyfathrebu negeseuon perfformiad allweddol i staff (da a drwg)?
- Rhoi mewnbwn parhaus i Asesiad Anghenion y cyngor a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynllunio a chyflwyno gwasanaethau?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Rheolwr Canol

Fel Rheolwr Canol rydw i'n disgwyl:

- Cyfeiriad clir gan y Cyngor ac uwch arweinwyr.
- I staff fod yn rhan o gyflwyno'r Cynllun Gwasanaethau a deall eu cyfraniad tuag ato a thuag at y Cynllun Corfforaethol.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Helpu Penaethiaid Gwasanaethau gyfathrebu gweledigaeth strategol y cyngor a chynnwys staff wrth ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth, sy'n cynnwys rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig am faterion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Sicrhau fod staff yn ymgysylltu ac yn ymrwymo a gweithgarwch o fewn y Cynllun Gwasanaeth.
- Cefnogi Pennaeth y Gwasanaeth gyda monitro'r gofrestr risg, a chysylltu hefyd gydag aelodau'r tîm.
- Rhoi diweddariadau manwl ac amserol ar berfformiad, monitro a yw ein disgwyliadau o ran perfformiad wedi eu bodloni.

Ydw i wedi?

- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol a'u cynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun Gwasanaeth?
- Mynd i'r afael ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd yn y Cynllun Gwasanaeth?
- Gwerthuso goblygiadau'r cynllun, a chynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth ac i'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau cychwyn a gorffen realistig ar gyfer prosiectau / gweithgareddau?
- Ymgysylltu a Herio Perfformiad Gwasanaeth blynyddol y Gwasanaeth a sicrhau fod staff wedi cael mewnbwn i hunanasesu'r gwasanaeth?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Adolygu data perfformiad a risg bob chwarter i fod yn sail i wella'r Gwasanaeth ei hun?
- Cyfathrebu negeseuon perfformiad allweddol i staff (da a drwg)?
- Rhoi mewnbwn parhaus i Aseiad Anghenion y cyngor a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynllunio a chyflwyno gwasanaethau?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Swyddog Perfformiad o fewn Gwasanaeth

Fel Swyddog Arweiniol Perfformiad rydw i'n disgwyl:

- Bod â dealltwriaeth glir o ymrwymadau'r cyngor a'i bartneriaid.
- I Gynlluniau Gwasanaeth gael mewnbwn a her barhaus gan randdeiliaid, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau Arweiniol y Cabinet, staff a'r cyhoedd.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Gefnogi Pennaeth y Gwasanaeth i gwblhau a chyfathrebu Cynllun Gwasanaeth clir a hawdd ei ddilyn (erbyn Mawrth 31ain), gan sicrhau cyfranogiad y bobl gywir wrth ei ddatblygu, a gwneud yn siŵr fod staff yn deall eu hymrwymadau o'i fewn. Dylai ffocws y Cynllun Gwasanaeth fod ar weithgarwch gwella allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac nid gwaith o ddydd i ddydd (gellir cynnwys hyn mewn cynlluniau gweithredol os oes angen).
- Cynorthwyo'r Pennaeth Gwasanaeth wrth baratoi papurau Herio Gwasanaeth.
- Cadw'r Cynllun Gwasanaeth yn gyfredol (mae'r Cynllun Gwasanaeth yn ddogfen fyw a dylid ei diweddarau gydag unrhyw weithgarwch newydd yn ystod y flwyddyn).
- Sicrhau fod diweddariadau perfformiad manwl a hawdd eu deall bob chwarter yn cael eu darparu yn Verto o fewn mis i ddiwedd y chwarter. Dylai unrhyw sylwadau a roddir fod yn ddiamwys a heb gynnwys acronymau.

Ydw i wedi:

- Cydlynu cyfarfodydd Cynllunio Gwasanaeth rhwng y Pennaeth Gwasanaeth, staff, aelodau Arweiniol y Cabinet, a rheolwyr? Argymhellir fod y rhain yn cychwyn ym mis Ionawr.
- Ymgynghori gyda a chynnwys y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad er mwyn sicrhau fod cysondeb yn y dull a ddefnyddir ac nad yw'n gwrthdaro a gwaith yn rhywle arall?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Sicrhau fod ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Dadansoddi goblygiadau'r cynllun, a chynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth ac i'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau cychwyn a gorffen realistig ar gyfer prosiectau / gweithgareddau?
- Defnyddio Verto i helpu i goladu manylion y Cynllun Gwasanaeth a chynnal Cofrestr Risg y Gwasanaeth?
- Helpu i baratoi gwaith papur y gwasanaeth ar gyfer Herio Perfformiad, allai gynnwys cydlynu gwaith hunanasesu'r gwasanaeth?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rydw i'n Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Fel Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad rydw i'n disgwyl:

- I wasanaethau gymryd rhan yn y Broses Cynllunio Gwasanaeth, a Chynlluniau Gwasanaeth wedi eu cwblhau yn Verto (erbyn 31ain Mawrth).
- Cofrestrau Risg Gwasanaeth i gael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol.
- Diweddariadau manwl bob chwarter i'w cyflwyno o fewn mis i ddiwedd chwarter, gyda sylwadau clir a dealladwy lle bo'n berthnasol.
- Adroddiadau i gael eu herio gan randdeiliaid, yn enwedig gan y Cabinet, Craffu a'r cyhoedd.
- Dogfennaeth gywir sydd wedi ei herio am y Gwasanaeth ac wedi ei gwblhau o fewn amserlenni.
- Gwasanaethau i ddefnyddio'r data y maent yn ei gasglu i fod yn sail i'w gwelliant eu hunain.

Rydw i'n gyfrifol am:

- Gynnal cywirdeb y broses gasglu data, monitro ac adrodd o fewn y cyngor.
- Cefnogi gwasanaethau gyda chynllunio gwasanaeth a rheoli risg, gan sicrhau cysondeb dull, a rhoi ystyriaeth ddigonol i ystyriaethau pwysig megis y Ddeddf Gydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac ymrwymadau eraill gan y cyngor a phartneriaid.
- Cynhyrchu adroddiadau perfformiad cywir fel sy'n ofynnol gan Uwch Arweinwyr, y Cyngor, Cabinet, Craffu, Llywodraethu Corfforaethol a Phroses Herio Perfformiad Gwasanaeth.

Ydw i wedi?

- Hwyluso cyfarfodydd Cynllunio Gwasanaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, gan sicrhau fod gwasanaethau ar eu ffordd i fodloni'r dyddiad cau (31ain Mawrth)?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Monitro diweddariadau perfformiad a risg gan wasanaethau bob chwarter, gan gynhyrchu adroddiadau perfformiad fel bo angen?
- Cefnogi gwasanaethau wrth baratoi eu gwaith papur ar gyfer Herio Perfformiad Gwasanaeth?

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Geirfa

Cynlluniau

Cynllun Corfforaethol

Y Cynllun Corfforaethol yw cynllun strategol cynhwysfawr y cyngor, ac mae'n ymateb i Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer tymor y cyngor. Mae hwn yn uwch na'r Cynlluniau Gwasanaeth.

Dogfen Gyflenwi

Er mwyn cadarnhau ein hymrwymiad i'r Cynllun Corfforaethol, mae'r cyngor yn cynhyrchu dogfen gyflenwi flynyddol, sy'n amlinellu pa weithgarwch fyddwn ni'n ei gyflenwi i gefnogi ein blaenoriaethau a'n Hamcanion Llesiant. Sail hyn yw'r **cynllunio gwasanaeth**, sy'n cychwyn ar ddiwedd mis Ionawr. Fel arfer cyhoeddir y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol ym mis Mehefin fel rhan o'n **Hadolygiad Perfformiad Blynyddol**.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried ei gyllideb am fwy nag un flwyddyn ymlaen. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud hyn drwy ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n edrych ar y tair blynedd nesaf ac yn amcangyfrif beth allai ddigwydd i'r cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw, a beth allai hynny ei olygu ar gyfer ei gyllid. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dilyn y cynlluniau a gyflwynir gan wasanaethau yn ystod y broses cynllunio gwasanaethau.

Cynllun Gwasanaeth

Mewn gwirionedd, y Cynllun Gwasanaeth sy'n sail ar gyfer Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Mae'n cynnwys pob dangosydd / mesur perfformiad a gweithgarwch gwella sy'n ymwneud a'r canlyniadau allweddol y mae gwasanaethau yn eu hystyried yn bwysig. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth yn bwydo i Gynllun Corfforaethol y cyngor a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a chant eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet Arweiniol. Mae gan rai gwasanaethau gynlluniau gweithredol hefyd o dan eu cynlluniau gwasanaeth, ond ni chaiff y rhain eu monitro'n gydweithredol.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gofyn i gyrff cyhoeddus fod a chynllun mewn lle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. O'r blaen, roedd hon yn ddogfen ar wahân i **Gynllun Corfforaethol** y cyngor, ond mae bellach wedi ei hymgorffori ynddo. Un o'r Nodau Llesiant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw i gael Cymru Fwy Cyfartal. Mae'n gwneud synnwyr, felly, i ymgorffori hyn i graidd ein busnes. Y naw o nodweddion a ddiogelir yw oedran; anabled; ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; a thueddfryd rhywiol.

Dogfen Dechnegol

Mae Dogfen Dechnegol i'r Cynllun Corfforaethol sy'n rhoi diffiniad llawn o bob **Dangosydd** a **Mesurau Perfformiad** o fewn y Cynllun Corfforaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i ni feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'n gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig. Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar <https://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

Cynllun Llesiant

Y Cynllun Llesiant yw'r cynllun strategol y cytunwyd arno rhwng partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ceisio cyflwyno canlyniadau allweddol sy'n cael eu rhannu ar draws gwahanol sefydliadau.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Adroddiadau

Adolygiad Perfformiad Blynyddol

Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn ofyniad statudol ar bob awdurdod lleol ac mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn Hydref 31. Dyma'r dadansoddiad cyffredinol o berfformiad y cyngor yn erbyn ei Gynlluniau Strategol – yn bennaf y **Cynllun Corfforaethol** – ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Nod Cyngor Sir Ddinbych yw cyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Mehefin bob blwyddyn, ac mae'n cynnwys ein diweddariad perfformiad chwarter 4, a'n dogfen gyflenwi flynyddol.

Asesiadau Effaith

Mae Asesiadau Effaith yn werthusiad o effaith posibl penderfyniadau a wnaed gan y cyngor, sy'n cynnwys newidiadau i bolisi, canllawiau, cynlluniau a strategaethau, neu rai newydd. Dylid gwneud pob penderfyniad gweithredol neu benderfyniadau'r Cyngor / Cabinet gan roi sylw dyledus i effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

Adroddiad Perfformiad Chwarterol

Mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn cynhyrchu Adroddiad Perfformiad Chwarterol i Graffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dim Arwain oedd yn dangos cynnydd y cyngor yn erbyn cyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Gellir gweld ein hadroddiad chwarter 4 yn ein **Hadolygiad Perfformiad Blynyddol**.

Hunanasesu

Mae gwasanaethau'n cynnal ymarfer hunanasesu er mwyn paratoi ar gyfer Herio Perfformiad Gwasanaeth, i helpu'r cyngor ddeall ei gryfderau a'i wendidau o ran prosesau allweddol, megis cynllunio strategol, rheoli perfformiad, cynllunio'r gweithlu a rheolaeth ariannol.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Cynhyrchir Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad cyn cynnal **Herio Perfformiad Gwasanaeth** ac mae'n archwilio'r perfformiad yn erbyn y **Cynllun Gwasanaeth**. Cynhyrchir hwn fis cyn yr Herio.

Rheoli Perfformiad

Trothwy Ardderchog

Y Trothwy Ardderchog yw'r pwynt lle'r ystyrir fod perfformiad ar gyfer **dangosydd** neu **fesur perfformiad** wedi bodloni ein huchelgais. Felly mae Trothwy Ardderchog o natur heriol a uchelgeisiol. Safle diofyn y cyngor fel arfer yw'r chwartel uchaf, os oes cymhariaeth genedlaethol ar gael.

Gweithgaredd Gwella

Mae Gweithgaredd Gwella yn rhaglenni, prosiectau neu gamau allweddol a nodwyd er mwyn cefnogi'r **canlyniad**. Mae hyn yn cynnwys camau sy'n deillio o'r arolwg staff neu'r **cofrestrau risg**.

Dangosydd

Mae dangosydd yn fesur na allwn ei reoli'n llawn ac mae fel arfer yn cyfleu 'effaith' yr hyn a wnawn. Mae ffactorau eraill y tu allan i reolaeth y cyngor sy'n penderfynu ar berfformiad dangosydd. Dylid defnyddio'r templed yng nghefn y llyfryn hwn er mwyn diffinio'r dangosyddion.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Ymyrraeth

Yr Ymyrraeth, neu'r Trothwy Gwella yw'r pwynt ble gellir ystyried bod perfformiad ar gyfer **dangosydd** neu **fesur perfformiad** yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Safle diofyn y cyngor fel arfer yw Canolrif Cymru, os oes cymhariaeth genedlaethol ar gael.

Canlyniad

Mae'r cyngor yn defnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i fonitro cyflenwi ei gynlluniau. Mae canlyniad yn fantais a brofir gan gwsmer (y cyhoedd fel arfer) neu gymuned (megis busnesau, er enghraifft). Ar gyfer gwasanaethau cynnal gall y cwsmer fod yn un mewnlol. Enghraifft o ganlyniad yw bod 'Myfyrwyr yn cyflawni eu potensial'.

System Rheoli Perfformiad

Mae'r cyngor yn defnyddio system reolaeth gwmwl a elwir yn Verto i fonitro perfformiad gwasanaeth a gwybodaeth rheoli prosiect.

Mesur Perfformiad

Mae Mesur Perfformiad o fewn rheolaeth y cyngor yn gyfan gwbl, ac mae fel arfer yn cynnwys gweithgarwch yr ydym ni yn ei gyflenwi ('ymdrech'). Dylid defnyddio'r templed yng nghefn y llyfryn hwn er mwyn diffinio'r dangosyddion.

Cofrestr Prosiect

Mae Cofrestr y Prosiect yn gofnod o brosiectau cyfredol a gyflwynir gan y cyngor.

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn set fechan o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n ystyried yr agweddau ar waith awdurdod lleol y mae awdurdodau lleol yn cytuno yr ystyrir ei fod yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Mae Data Cymru'n coladu'r data o ffurflenni data'r awdurdod lleol rhwng mis Mai a mis Mehefin. Yna cant eu cyhoeddi o fis Gorffennaf ymlaen.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Herio Perfformiad Gwasanaeth

Mae Herio Perfformiad Gwasanaeth (neu Herio Gwasanaeth) yn broses flynyddol sy'n edrych ar berfformiad cyffredinol Gwasanaeth. Yn gyffredinol, cynhelir un y mis. Fel arfer, cadeirir y panel gan y Prif Weithrewr, ac fe'i mynychir gan Aelod(au) Cabinet arweiniol perthnasol, cynrychiolwyr craffu, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes a Phennaeth Cyllid ac Asedau. Bydd ein rheoleiddwyr hefyd yn bresennol.

Cynllunio Gwasanaeth

Mae Cynllunio Gwasanaeth yn weithgarwch sydd fel arfer yn digwydd rhwng Ionawr a Mawrth er mwyn cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad y gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Perfformiad er mwyn datblygu'r rhain yn Verto erbyn 31ain Mawrth, er mai dogfennau byw y dylid eu cadw'n gyfredol drwy gydol y flwyddyn. Bydd y gweithgarwch yn y Cynlluniau Gwasanaeth yn sail i ddogfen gyflenwi flynyddol y cyngor, a gyhoeddir ym mis Mehefin fel rhan o'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol. Mae templed y Cynlluniau Gwasanaeth yn Verto, ac mae wedi ei seilio ar y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Am fwy o ganllawiau ynglŷn a sut i greu cynllun gwasanaeth, siaradwch gyda'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

Trothwyon

Yn Sir Ddinbych rydym yn osgoi eu galw'n 'dargedau'. Yn hytrach, dewiswn weithio o fewn amrediad sy'n cynrychioli'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Ardderchog, Da, Derbyniol, neu yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Er mwyn penderfynu ar yr amrediad hwnnw gosodwyd trothwy Ardderchog ac Ymyrraeth (Blaenoriaeth ar gyfer Gwella) ar gyfer pob dangosydd a mesur perfformiad, fel arfer yn rhan o'n gweithgarwch cynllunio gwasanaeth. Cyfrifir trothwyon Derbyniol a Da drwy gymryd y pwynt canol rhwng Ardderchog ac Ymyrraeth. Mae Sir Ddinbych yn gweithio i'r un dull asesu pedwar cam o fewn – Perfformiad, Prosiect a Rheoli Risg.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rheoli Risg

Cofrestr Risg Gorfforaethol

Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet sydd yn datblygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol. Caiff ei monitro ganddynt a chan Craffu Perfformiad bob chwe mis. Mae'n cymryd y risgiau mwyaf difrifol a chyffredin o'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth a phortffolios y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Fel y **Cofrestrau Risg Gwasanaeth**, caiff ei storio ar Verto.

Mater

Mae mater yn cyfeirio at ganlyniadau digwyddiad sydd eisoes wedi digwydd a chamau lliniaru rheolaeth sydd ar y gweill neu wedi eu trefnu. Gweler ganllawiau rheoli risg y cyngor am fwy o fanylder gwybodaeth.

Risg

Mae risg yn ddigwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau yn llwyddiannus. Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio'r ansicrwydd ynghylch digwyddiad a'i effaith bosibl.

Awch am Risg

Awch am risg yw lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn fel Cyngor wrth gyflawni ein hamcanion strategol tymor hir. Er enghraifft, gall y cyngor benderfynu na fydd yn goddef unrhyw risg i'w enw da, ond mae'n fwy parod i fod yn agored i risg ariannol. Darllenwch am reoli risg a'n hawch ar ein <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau.aspx>

Cofrestr Risg Gwasanaeth

Mae'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cynnwys y risgiau o fewn portffolio Pennaeth Gwasanaeth. Fel y Cofrestr Risgiau Corfforaethol, caiff y rhain eu monitro drwy Verto.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Rheoleiddwyr

Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru

Cyhoeddir Adroddiadau Gwella Blynyddol ar gyfer pob un o'r awdurdod lleol, sy'n cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, a gwasanaethau tân ac achub Cymru. Mae'r adroddiadau'n edrych sut mae'r sefydliadau'n darparu gwasanaethau ac yn cynllunio i wella.

Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r Asesiad Corfforaethol yn asesiad manwl o drefniadau llywodraethu o fewn y cyngor, yn ceisio sicrhau fod y Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a chanlyniadau gwell i'r dinasyddion. Bydd Asesiad Corfforaethol fel arfer yn digwydd bob 5 mlynedd.

Llythyr Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r llythyr Asesu Gwelliant yn ddiweddariad blynyddol i'r **asesiad corfforaethol** manylach. Mae'n ystyried y gwaith archwilio ac asesu a wnaed yn y cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n rhoi sicrwydd a yw'r cyngor wedi cwblhau ei ddyletswyddau a bodloni'r gofynion deddfwriaethol.

Templed Mesur

Mae'r canlynol yn ganllaw defnyddiol er mwyn diffinio dangosyddion a mesurau perfformiad. Bydd defnyddio hwn yn sicrhau fod data yn cael ei gasglu mewn ffordd gyson o un flwyddyn i'r llall. Os ydych angen unrhyw gyngor ar yr hyn sy'n ddangosydd da neu'n fesur o berfformiad, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

Maes

Mae hyn yn nodi i ba ganlyniad y mae'r mesur hwn yn perthyn. Os nad yw'n perthyn i ganlyniad, defnyddiwch ddisgrifiad priodol.

Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Cyfeirnod

Dyma rif adnabod y dangosydd.

Teitl

Geiriad y mesur ei hun.

Cynllun Llesiant

Canllaw manwl yn cynnwys: egluro diffiniadau, gwybodaeth ynglŷn â beth i'w gynnwys/peidio ei gynnwys wrth gasglu data ar gyfer y dangosydd, ayyb.

Cyfrifo

Dyma'r eitemau data sydd angen eu casglu er mwyn cyfrifo'r dangosydd ynghyd a'r fformiwla i'w ddefnyddio wrth wneud hynny.

Ffynhonnell ddata

Croes gyfeirio at achosion eraill o'r data hwn, er enghraifft, StatsCymru, WasteDataFlow, PARIS, ayyb.

Amllder

Nodi amllder casglu'r data ar gyfer y mesur.

Trothwy Ardderchog

Y trothwy ardderchog a nodir yn ôl y fethodoleg gorfforaethol.

Ymyrraeth

Y lefelau ymyrraeth a nodwyd ynglŷn â'r trothwy ardderchog yn ôl y fethodoleg gorfforaethol.